
Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Fframwaith ar gyfer Rheoli Economi'r Nos yng Nghymru

## Creu Economi Nos Iach, Amrywiol a Diogel






Crynodeb

# Trosolwg o'r Fframwaith

**Mae economi'r nos yng Nghymru yn ymwneud â gweithgarwch economaidd rhwng 6pm a 6am. Mae'n cwmpasu amrywiaeth o weithgareddau gan gynnwys bwytai a sefydliadau sy'n gweini bwyd, gwerthu alcohol i'w yfed ar y safle ac oddi ar y safle, lleoliadau cerddoriaeth a chlybiau â dawnsio ac adloniant, sinemâu a gweithgareddau hamdden eraill. Mae gan Gymru amrywiaeth o economïau nos amrywiol mewn ardaloedd trefol a gwledig, o ddinasoedd prifysgol i drefi gwledig.**

Mae economïau nos yn werthfawr i Gymru. Maent yn creu swyddi, refeniw, ac yn cynnig cyfleoedd i bobl gymdeithasu. Fodd bynnag, mae tystiolaeth ryngwladol, cenedlaethol a rhanbarthol wedi dangos bod twf economi'r nos wedi bod yn gysylltiedig â chynnydd mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol, gweithgarwch troseddol a chamddefnyddio sylweddau.

Gall economi'r nos fod yn faes polisi cymhleth, sy'n cynnwys ystod eang o asiantaethau a rhanddeiliaid sydd angen cydweithio er mwyn sicrhau y ceir taith ddiogel a phleserus drwy economi'r nos. Mae hyn yn cynnwys datblygu a chynnal amgylchedd sy'n ddeniadol ac yn gynaliadwy i bobl o bob oed a llunio strategaethau atal sydd wedi'u targedu er mwyn rhoi'r gorau i ddiwylliant o gamddefnyddio sylweddau a pheri niwed. Mae'r angen i ddeall economi'r nos yn lleol yn cysylltu'r holl ffactorau, fel y gellir gweithredu strategaethau atal a chymryd camau effeithiol sy'n seiliedig ar wybodaeth gywir.

Mae'r wybodaeth a roddir yn yr adroddiad cryno hwn yn crynhoi'r ***prif amcanion, canlyniadau ac enghreifftiau o arfer*** a geir yn Fframwaith '***Rheoli Economi'r Nos yng Nghymru***'. Mae'r Fframwaith wedi cael ei ddatblygu gan Lywodraeth Cymru mewn partneriaeth ag Iechyd Cyhoeddus Cymru a rhanddeiliaid allweddol drwy ymgynghoriad cyhoeddus, gweithdai â rhanddeiliaid a hefyd Asesiad Effaith ar Iechyd llawn. Gan gadw penderfynyddion cymdeithasol iechyd a lles mewn golwg, roedd yr Asesiad Effaith ar Iechyd yn cynnwys ystyried unrhyw grwpiau agored i niwed y byddai'r Fframwaith ar gyfer Economi'r Nos yn effeithio arnynt, yn ogystal â'r boblogaeth gyffredinol yn ei chyfanrwydd. Hefyd, ystyriodd effeithiau economi'r nos ar y rhanddeiliaid allweddol hynny yr effeithid arnynt, sydd â diddordeb yn economi'r nos neu y mae'n ofynnol iddynt ei rheoli.

Gan ddefnyddio uchelgeisiau a nodir yn ***Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015)***[1], mae'r Fframwaith wedi newid o fod â ffocws adweithiol, i ddull rhagweithiol ac ataliol o gefnogi economïau nos ffyniannus a diogel yng Nghymru.

1 Llywodraeth Cymru (2015) Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
Ar gael yn: http://gov.wales/topics/people-and-communities/people/future-generations-act/?lang=cy

# Cynnwys


5 Diben y Fframwaith ar gyfer Economi'r Nos

5 Y Fframwaith ar gyfer Economi'r Nos

6 Amcan 1

8 Amcan 2


10 Amcan 3

12 Crynodeb


OGL © Hawlfraint y Goron 2016
WG28855

ISBN digidol 978-1-4734-8208-1 ISBN argraffu 978-1-4734-8209-8

# Taith Iach, Amrywiol a Diogel drwy
# Economi'r Nos yng Nghymru



# Diben y Fframwaith ar gyfer Economi'r Nos

**Diben y Fframwaith ar gyfer Economi'r Nos yw darparu strwythur i bob rhanddeiliad allweddol er mwyn helpu i ddatblygu a chynnal Economi'r Nos gynaliadwy, iach a diogel i bawb yng Nghymru drwy ddeall economi'r nos, a chefnogi strategaethau atal a chamau gorfodi.**


Ochr yn ochr â deddfwriaeth a pholisïau sy'n bodoli eisoes yng Nghymru, mae'r Fframwaith ar gyfer Economi'r Nos yn anelu at hyrwyddo economïau nos amrywiol a helpu i ddatblygu trefi a chanol dinasoedd diogel sy'n hygyrch ac yn ddeniadol i bawb. Bydd cyflawni'r fath nod yn gofyn am bartneriaethau cryf a chynaliadwy er mwyn creu a chynnal amgylchedd cadarnhaol i genedlaethau heddiw ac yfory.

Bwriedir i'r Fframwaith ar gyfer Economi'r Nos gael ei ddefnyddio gan awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol, timau economi'r nos, arweinwyr diogelwch cymunedol a rhanddeiliaid allweddol eraill, fel yr heddlu, adrannau trwyddedu a diwydiant, er mwyn helpu i ddatblygu a chyflawni cynlluniau a strategaethau lleol. Bydd Ardaloedd Gwella Busnes hefyd yn chwarae rôl allweddol yn y gwaith o ddatblygu a rheoli economi'r nos.

Yn y ddogfen hon, amlinellir rhai enghreifftiau allweddol o ymyriadau sy'n bodoli eisoes y gellir eu defnyddio er arweiniad a chymorth. Mae hefyd yn bwysig nodi arwyddocâd datblygu ymyriadau arloesol, a hefyd bwysigrwydd arfer gorau seiliedig ar dystiolaeth. Ceir rhagor o fanylion yn Fframwaith ***'Rheoli Economi'r Nos yng Nghymru'.***

# Y Fframwaith ar gyfer Economi'r Nos

**Mae gan y Fframwaith ar gyfer Economi'r Nos dri phrif amcan sy'n gysylltiedig â'i gilydd ac wedi'u hategu gan ganlyniadau penodol. Cydnabyddir na fydd efallai'n ymarferol nac yn angenrheidiol gweithredu ar bob agwedd ar bob amcan, oherwydd bydd hyn yn dibynnu ar anghenion lleol cymunedau a dinasoedd ledled Cymru.**



# Amcan 1

**Cefnogi datblygiad dull systematig o feithrin dealltwriaeth o economi'r nos yn seiliedig ar wybodaeth gywir.**

Wrth lunio strategaeth i reoli economi'r nos, rhaid deall natur a graddau gweithgareddau a materion mewn unrhyw ardal leol. Rhaid i ddata amlasiantaethol gael eu casglu, eu hasesu a'u cyfnewid gan y sector preifat a'r sector cyhoeddus er mwyn rheoli economi'r nos yn effeithiol, gan arwain at greu proffiliau lleol ac ymyriadau wedi'u teilwra er mwyn diwallu anghenion yr ardal leol. Gyda'r nod hirdymor a rennir o wella economi'r nos i genedlaethau'r dyfodol, rhaid canolbwyntio ar fonitro a deall economi'r nos er mwyn sicrhau bod camau ataliol yn targedu anghenion lleol ac yn arwain at adfywio trefi a dinasoedd Cymru yn y dyfodol.


**Canlyniadau:**

a) Rhannu gwybodaeth ac adnoddau ymhlith asiantaethau partner yn lleol, yn rhanbarthol ac yn rhyngwladol sy'n helpu i hyrwyddo camau ataliol.

b) Datblygu rhaglen o gamau neu brosiectau cydgysylltiedig er mwyn ymdrin â phroblemau a nodwyd gan ddefnyddio proffil o anghenion yr ardal leol.

c) Cydnabod cyfrifoldeb a rennir am ymgysylltu a chydlynu asiantaethau, rhanddeiliaid a chymunedau lleol yn effeithiol.

ch) Monitro a gwerthuso ymyriadau presennol a newydd mewn ffordd effeithiol a chynaliadwy er mwyn monitro cynnydd ac effaith o fewn economi'r nos.



**Enghreifftiau allweddol o ymarfer:**



Mae **Prosiect Cadw Golwg ar Drais De Cymru** yn dwyn ynghyd sawl rhanddeiliad o wahanol sectorau fel Iechyd Cyhoeddus Cymru, Byrddau Iechyd Lleol, Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru a Heddlu De Cymru i drechu trais yn Ne Cymru. Yn seiliedig ar waith y Grŵp Gwybodaeth am Drawma ac Anafiadau a arweinir gan Brifysgol John Moores yn Lerpwl, mae'r prosiect yn y De wedi datblygu system cadw gwyliadwriaeth a dadansoddi reolaidd er mwyn ymyrryd yn gynnar ac atal trais drwy sefydlu systemau ar gyfer rhannu data rhwng asiantaethau. Am y tro cyntaf yn Ne Cymru, defnyddiwyd data ar ymosodiadau gan y gwasanaeth ambiwlans, yr heddlu ac adrannau achosion brys i fapio lleoliadau ymosodiadau a chymunedau lle mae'r risg o drais ac erledigaeth a thramgwyddo yn fwy tebygol. Gall pwysigrwydd rhannu data ar iechyd er mwyn atal troseddau a chreu economi nos ddiogel fod yn hynod ddefnyddiol wrth dargedu mannau lle ceir problemau a helpu i lywio penderfyniadau trwyddedu yn y dyfodol. Mae'r data amlasiantaethol a gasglwyd drwy'r fenter hon hefyd wedi cael eu defnyddio i lywio a gwerthuso ymyriadau o fewn economi'r nos, er enghraifft Man Cymorth yn Abertawe a gweithredu cynllun swyddogion tacsi yn Aberdâr.

**Gellir cael rhagor o wybodaeth drwy e-bostio'r cyfeiriad canlynol:**
**ViolenceProject@wales.nhs.uk**

---

Mae **Partneriaethau Alcohol Cymunedol (PACau)** byn dwyn ynghyd y diwydiant, yr heddlu, gwasanaethau iechyd, darparwyr addysg a rhanddeiliaid allweddol eraill er mwyn mynd i'r afael â phroblem yfed dan oed ac ymddygiad gwrthgymdeithasol cysylltiedig yn economi'r nos. Mae astudiaeth achos o PAC ym Mhowys yn dangos sut mae rhanddeiliaid allweddol wedi cydweithio er mwyn cyflwyno amrywiaeth o fentrau, er enghraifft Her 25, er mwyn mynd ati i drechu argaeledd alcohol mewn ffordd gyson. Hefyd, trefnwyd patrolau gan yr heddlu a swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu er mwyn casglu gwybodaeth am ble roedd pobl ifanc yn dod at ei gilydd i yfed alcohol. O ganlyniad, gostyngodd ymddygiad gwrthgymdeithasol gan bobl ifanc yn gysylltiedig ag alcohol 39.5% a gwellodd y berthynas rhwng manwerthwyr ac asiantaethau gorfodi.

**Ceir rhagor o wybodaeth ar wefan PAC:**
**http://www.communityalcoholpartnerships.co.uk/case-studies/brecon**

**Canllawiau defnyddiol:**

- Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru. **http://www.waspi.org/**
- Prifysgol John Moores Lerpwl. 2014. *A guide to using health data to inform local violence prevention*. **http://www.cph.org.uk/publication/a-guide-to-using-health-data-to-inform-local-violence-prevention/**

# Amcan 2

**Hyrwyddo amgylcheddau cynaliadwy a chefnogi strategaethau atal er mwyn creu economïau nos iach, diogel ac amrywiol yng Nghymru.**

Mae economi nos lwyddiannus yn dibynnu ar ddenu amrywiaeth o bobl o bob oed i amrywiaeth o weithgareddau a hyrwyddo newid diwylliant yn economi'r nos er mwyn creu ymdeimlad o ddiogelwch ac annog mwy o amrywiaeth. Gellir gwneud hyn drwy annog sectorau i gydweithio, er enghraifft trwyddedu a chynllunio, er mwyn hyrwyddo negeseuon ataliol allweddol a sicrhau bod pobl yn cael profiad diogel a phleserus yn economi'r nos.


**Canlyniadau:**

a) Datblygu a chynnal amgylcheddau amrywiol, diogel a hygyrch yn economi'r nos sy'n cefnogi anghenion defnyddwyr economi'r nos, gan gynnwys grwpiau agored i niwed.

b) Darpariaeth effeithiol o gyfleusterau a seilwaith wedi'u teilwra i holl ddefnyddwyr economi'r nos, gan gynnwys system drafnidiaeth effeithiol a diogel.

c) Hyrwyddo negeseuon ataliol allweddol er mwyn annog newid diwylliant sy'n lleihau'r risg o niwed o ganlyniad i gamddefnyddio sylweddau a thrais yn economi'r nos.

ch) Gweithio gyda'r diwydiant i annog y defnydd o fframweithiau rheoleiddio seiliedig ar dystiolaeth er mwyn gwella diogelwch.



**Enghreifftiau allweddol o ymarfer:**

Nod ymgyrch **Gwybod y Sgôr** oedd gwella ymwybyddiaeth o yfed yn gyfrifol a deddfwriaeth yn ymwneud â gwerthu alcohol i bobl feddw, a chefnogi staff i gydymffurfio â'r gyfraith a'u hannog i beidio â gwerthu alcohol i bobl feddw yn economi'r nos. Roedd yr ymgyrch yn cynnwys ymgyrch farchnata gymdeithasol, darllediadau radio, deunyddiau ymyrryd fel posteri a chrysau t ar gyfer gweithwyr bar, a gwella mesurau gorfodi'r heddlu. Drwy hyrwyddo negeseuon ataliol allweddol ledled De Cymru er mwyn hyrwyddo newid diwylliant, mae'r ymgyrch wedi cael ei gweithredu a'i gwerthuso gan Brifysgol John Moores yn Lerpwl, Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru ac Undeb Rygbi Cymru. Mae canlyniadau'r gwerthusiad yn awgrymu, ar ôl yr ymgyrch, fod cyfran defnyddwyr economi'r nos a allai ddweud bod gwerthu alcohol i bobl feddw yn anghyfreithlon wedi cynyddu o 48% i 60.8%, a nodwyd bod yfed cyn mynd allan wedi gostwng yn sylweddol o 63.2% i 54.3% ar ôl i'r ymgyrch gael ei rhoi ar waith.

**Ceir rhagor o wybodaeth am yr ymgyrch a'r gwerthusiad ar wefan Prifysgol John Moores Lerpwl: http://www.cph.org.uk/wp-content/uploads/2015/07/Know-the-Score-pilot-evaluation-FINAL-REPORT-July-2015.pdf**

---

Mae Alcohol Concern Cymru wedi gweithio gyda Phrifysgol De Cymru i ddylunio'r **Dafarn Berffaith** gyda'r nod o greu tafarndai a bariau lle canolbwyntir ar ymlacio a chymdeithasu, nid yfed alcohol. Mae'r gwaith o ddylunio'r Dafarn Berffaith yn ystyried gofod, dodrefn, goleuadau, cerddoriaeth a bwyd er mwyn annog pobl i yfed yn synhwyrol mewn amgylchedd ymlaciol, a gall annog ystod ehangach o ddefnyddwyr. Anogir y defnydd o'r dyluniadau hyn yn y dyfodol er mwyn helpu i ddylunio gwell tafarndai.

**Ceir rhagor o wybodaeth am y Dafarn Berffaith ar wefan Alcohol Concern Cymru: http://www.southwales.ac.uk/news/2016/whats-your-idea-perfect-pub/**

# Amcan 3

**Helpu i reoli economi'r nos yn effeithiol ar lefel amlasiantaethol a chymryd camau gorfodi lleol.**

Mae'r Fframwaith ar gyfer Economi'r Nos yn anelu at helpu i ddatblygu a chynnal economïau nos diogel yng Nghymru lle mae llai o risg o drosedd a chamddefnyddio sylweddau a lle caiff ei rheoli'n effeithiol. Mae economi'r nos yn rhoi pwysau aruthrol ar wasanaethau brys a thanlinellodd yr Asesiad Effaith ar Iechyd yn y Fframwaith drafft ar gyfer Economi'r Nos bwysigrwydd sicrhau bod rhanddeiliaid yn cydweithio er mwyn annog trwyddedu cyfrifol a rhannu cyfrifoldeb am ofynion economi'r nos.


**Canlyniadau:**

a) Darparu gwasanaethau brys hyblyg a dargedir mewn modd cynaliadwy yn economi'r nos.

b) Cynllunio a defnyddio pwerau deddfu a thrwyddedu mewn modd effeithlon drwy gydweithio a chydweithredu er mwyn sicrhau economi'r nos ddiogel.

c) Gorfodi deddfwriaeth bresennol a newydd yn rhagweithiol gan blismona ar sail iechyd y cyhoedd.

ch) Sicrhau bod pob rhanddeiliad allweddol yn ymgysylltu mewn modd adeiladol a chadarnhaol, gan gynnwys y sector cyhoeddus, y diwydiant a'r sector gwirfoddol.



**Enghreifftiau allweddol o ymarfer:**

Mae **Canolfan Trin Alcohol Caerdydd** yn wasanaeth a arweinir gan nyrsys sy'n cynnig amgylchedd diogel i asesu, trin os oes angen, a monitro pobl feddw. Cafodd y Ganolfan hon ei datblygu ar sail partneriaeth eang rhwng llywodraeth leol, yr heddlu, gofal iechyd a llu o asiantaethau eraill y mae meddwdod difrifol yn effeithio ar bob un ohonynt i raddau amrywiol yn sgil economi'r nos. Y prif nod yw sicrhau bod cynifer o bobl feddw â phosibl yn mynd i'r Ganolfan Trin Alcohol yn hytrach nag Adrannau Achosion Brys er mwyn gwella'r gofal a ddarperir yn yr Adrannau hynny a gwella gofal heb ei drefnu yn y gymuned yn gyffredinol. Dangosodd gwerthusiad o'r Ganolfan ei bod yn lleihau'r risg o niwed i ddefnyddwyr economi'r nos; yn lleihau amseroedd aros ambiwlans ac yn sicrhau nad yw pobl feddw iawn yn mynd i Adrannau Achosion Brys.

**Ceir rhagor o wybodaeth am y gwerthusiad ar y wefan ganlynol:**
**http://cardiffandvaleapb.org/wp-content/uploads/Evaluation.pdf**

---

Gall economi'r nos roi cyfle i reibwyr rhywiol gymryd mantais o bobl sy'n fwy agored i niwed, er enghraifft am eu bod wedi bod yn yfed alcohol. Dan arweiniad Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru, mae **Hyfforddiant ar fod yn Agored i Niwed** yn helpu'r rheini sy'n gweithio yn economi'r nos i nodi pobl agored i niwed a rheibwyr rhywiol, ac mae'n meithrin dealltwriaeth o sut i nodi ac ymyrryd ar gam cynharach. Rhaid i holl swyddogion yr heddlu Heddlu De Cymru sy'n gweithio yn economi'r nos gael yr hyfforddiant hwn. Er bod yr hyfforddiant yn wirfoddol i bartneriaid allanol, fel staff drws a staff bar, mae staff deiliaid trwyddedau preifat wedi ei gael, er enghraifft staff bar yn Aberdâr.

**Ceir rhagor o wybodaeth ar y wefan ganlynol:**
**http://commissioner.south-wales.police.uk/en/police-crime-plan/tackling-violent-crime/vulnerability-training/**

---

Mae **Street Pastors** yn sefydliad gwirfoddol Cristnogol sy'n helpu defnyddwyr economi'r nos rhwng 10pm a 4am ledled Cymru a chaiff gefnogaeth eglwysi lleol, grwpiau cymunedol mewn partneriaeth â'r heddlu, y cyngor lleol ac asiantaethau statudol eraill. Mae bugeiliaid stryd yn wirfoddolwyr hyfforddedig sy'n gofalu am bobl yn economi'r nos ac yn gwrando arnynt a'u helpu. Er enghraifft, yn Wrecsam, mae Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru wedi dweud bod gwaith bugeiliaid stryd wedi cyfrannu at leihau troseddau treisgar ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn economi'r nos.

**Ceir rhagor o wybodaeth yma:** **http://www.streetpastors.org/**

# Crynodeb

Mae economi'r nos yn llawn cyfleoedd datblygu economaidd a chymdeithasol i unigolion o bob oed yng Nghymru. Fodd bynnag, dim ond drwy reolaeth glir a fframwaith gweithredu y gellir cyflawni'r manteision hyn. Disgwylir i'r Fframwaith gael ei ddefnyddio gan bob rhanddeiliad er mwyn cefnogi, datblygu a rheoli economi'r nos.